**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Eleanor Marks

Ofcom

8 Gorffennaf 2019

Annwyl Eleanor,

**Cais y BBC i ddileu'r gofyniad am gynnwys llafar 100 y cant yn ystod y slot radio brecwast**

Fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rwy'n pryderu ynghylch y cynigion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Blynyddol y BBC 2019-20 i wneud cais i Ofcom ddiwygio'r Drwydded Weithredu ar gyfer gorsafoedd radio yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau. Mae'r cynnig i amrywio'r cwota ar gyfer cynnwys llafar yn y bennod ar 'Newidiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus y BBC' yn dweud:

> 'we will be asking Ofcom to amend the Operating Licence to remove the 100% speech quota at breakfast time, whilst retaining the overall 60% quota for speech content between 06:00-19:00 on weekdays.'

Er mwyn mynegi'r pryderon hyn, rwyf eisoes wedi ysgrifennu at Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau; Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales; a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru.

Teimlaf y byddai unrhyw symud oddi wrth y gofyniad am gynnwys llafar 100 y cant ar y radio rhwng 07.30 a 08.30 yn ystod yr wythnos yn lleihau'r cyfle i wrandawyr yng Nghymru glywed trafodaethau ynghylch digwyddiadau gwleidyddol a chyfoes sy'n dylanwadu ar eu bywydau.

Mae cyfran y gwrandawyr yng Nghymru sy’n gwrando ar ddarllediadau radio’r BBC yn uwch nag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae cynnal yr awr drafod yn ystod y slot brecwast yn rhoi cyfle i wrandawyr glywed gwybodaeth a chyfweliadau a fydd yn helpu iddynt ddeall penderfyniadau gwleidyddol sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.

Er mwyn imi gael deall sut y bydd Ofcom yn ymdrin â'r cais hwn, a wnewch chi nodi'r meini prawf a gaiff eu defnyddio i ystyried y cais gan y BBC? Byddai'n ddefnyddiol gwybod ar ba sail y bydd Ofcom yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, ac yn benodol, pa ystyriaeth a gaiff ei rhoi i Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Rwy'n pryderu y bydd y cais yn tanseilio pwrpas cyhoeddus y sefydliad i 'ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o’u cwmpas'. Mae'r diben cyhoeddus hwn yn cynnwys y gofyniad i:

> 'gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig...er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu’n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus '

Byddai cael syniad o'r gwahanol ffactorau a gaiff eu hystyried wrth asesu cynnig y BBC yn ddefnyddiol i ni a'n rhanddeiliaid cyn i'r cais ffurfiol gael ei gyflwyno i chi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i mi cyn 31 Gorffennaf er mwyn imi allu rhannu eich sylwadau gyda'n Haelodau cyn toriad yr haf.
Ymddiheuriadau am y rhybudd byr.

Yn gywir,

Bethan Sayed

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**